

# FestivalUK\*2022

**COFNODION  
PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG (ARAC neu'r Pwyllgor)  
FESTIVAL 2022 LTD ("Festival")**

**10.30 – 12.30, Dydd Llun 2 Awst 2021**

**Cynhaliwyd yn bersonol a thrwy Gyfarfod Microsoft Teams**

## **Aelodau:**

Faraz Tasnim (FT) (Cadeirydd)	Cyfarwyddwr Bwrdd, Festival
Liam Hannaway (LH)	Cyfarwyddwr Bwrdd, Festival
Roger Lewis (RL)	Cyfarwyddwr Bwrdd, Festival
Amali de Alwis (AA)	Cyfarwyddwr Bwrdd, Festival

## **Arsylwyr:**

Adam Richards (AR)	Price Waterhouse Coopers (PWC)
Alison Breadon (AB)	Price Waterhouse Coopers (PWC)
Daniel Coles (DC)	Yr Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS)
Greg Wilson (CBM)	Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO)

## **Yn bresennol:**

David Grady (DG)	Prif Swyddog Ariannol y Grŵp, OC a Festival
Phil Batty (PB)	Cyfarwyddwr Gweithredol, Festival
Sarah Harrod (SHa)	Pwyllgor Trefnu Gemau'r Gymanwlad Birmingham 2022, Pennaeth Rheoli Cyllid
John Darnbrook (JD)	Pennaeth Integreiddio Busnes, Festival
Richard Pomfret (RP)	Uwch Reolwr Cyllid, Festival
Lucy Bailey (LB)	Uwch Gwnsler Cyfreithiol, Festival
Sarb Hair (SH)	Cydgysylltydd Gweithrediadau Corfforaethol, Festival (Ysgrifenyddiaeth)

## **Ymddiheuriadau:**

Caroline McGrory (CMcG)Ysgrifennydd y Cwmni a Phrif Swyddog Cyfreithiol y Grŵp, OC a Festival

<b>RHIF EITEM</b>	<b>EITEM</b>	<b>PERCHENNOG Y WEITHRED</b>
<b>1</b>	<b>Cymeradwyo Cofnodion a Materion sy'n Codi</b>  Cymeradwyodd yr ARAC gofnodion cyfarfod diwethaf ARAC a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2021.  Cododd FT faterion sy'n codi fel a ganlyn:  Cam Gweithredu 1 - Parhau i fonitro cyllid y Gweinyddiaethau Datganoledig/Cyrff Cyflawni Strategol i roi sicrwydd a'r wybodaeth ddiweddaraf am fonitro cyllid ar draws rhaglenni. Gweithgor cyllid pedair gwlad i'w sefydlu o fis Ebrill 2021 ymlaen. Ar y gweill.  Cam Gweithredu 2 - 6.3 yn y papurau wedi'i ddiwygio i ddweud "rhagweld" ar gyfer cyhoeddi'r farn wedi'i haddasu. Cam gweithredu wedi'i gau.  Cam Gweithredu 3 - Aelodau ARAC i gyfarfod â JD i fynd drwy'r mapiau gwres a'r offeryn i gasglu'r risgiau. Cam gweithredu wedi'i gau.  Cam Gweithredu 4 - Risg 56 i'w diweddarau i goch. Cam gweithredu wedi'i gau.  Cam Gweithredu 5 – cyfarfod Awst ARAC i'w drefnu. Cam gweithredu wedi'i gau.	<b>RP</b>

<p><b>2</b></p>	<p><b>Y Diweddaraf am y Weithrediaeth</b></p> <p>Darparodd PB y diweddariad canlynol;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r tîm yn gweithio drwy ymatebion ar y cyd i'r Cytundeb Comisiynu ar gyfer y 10 tîm, a'r nod yw cytuno ar y telerau hyn erbyn diwedd mis Awst 2021.</li> <li>• Mae tîm yr Alban, Dandelion, wedi cytuno ar ei fodel llywodraethu corfforaethol gyda EventScotland.</li> <li>• Mae Festival yn parhau i wario yn unol â'r Cytundeb Ymchwil a Datblygu, sydd wedi'i amrywio ar ddau achlysur. Mae'r amrywiad diweddaraf yn cynnwys cyllideb y cytunwyd arni tan ddiwedd mis Awst 2021.</li> <li>• Festival i roi sgôr Coch Oren Gwyrdd i'r Bwrdd ar gyfer pob comisiwn ar statws trafodaethau'r Cytundeb Comisiynu.</li> <li>• Mae recriwtio wedi gwella dros y ddau fis diwethaf ac mae tîm Festival yn parhau i dyfu. Mae Festival bellach wedi penodi ei haelod olaf o'r Uwch Dîm Arwain yn rôl Pennaeth Cynulleidfaoedd, a bydd y sawl a benodwyd yn ymuno ym mis Medi 2021.</li> </ul> <p>Mynegodd FT ei bryder am y gyfradd recriwtio a'i heffaith ar gyflawni. Cadarnhaodd PB fod yr OC yn darparu argymhellion yn y maes hwn, a fydd yn cael ei rannu ag ARAC a nodwyd hyn fel cam gweithredu.</p>	<p><b>PB</b></p>
<p><b>3</b></p>	<p><b>Rheoli Rhaglenni Gweithredol</b></p> <p>Cyflwynodd JD a PB drosolwg o'r prosesau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i ddarparu'r Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO) i alluogi rheoli risg, ac i fonitro effeithiolrwydd prosiectau. Roedd y cyflwyniad yn rhoi manylion am y dull, y systemau a'r offer sydd ar waith i hwyluso Rheoli Rhaglenni Gweithredol.</p> <p>Trafodwyd y model sicrwydd a'r dull o ymdrin ag ail linell amddiffyn o fewn y PMO.</p> <p>Gofynnwyd am dabl yn esbonio rolau a chyfrifoldebau allweddol gan gynnwys pa blatfform ac offer y mae gan wahanol randdeiliaid fynediad iddynt. Fe'i cymerwyd fel cam gweithredu i gynnwys hyn ym mhapur y Bwrdd.</p> <p>Adolygiad cynnar o Reoli Rhaglenni Gweithredol i'w gwblhau ar gyfer y Bwrdd ym mis Awst.</p> <p>Cytunwyd y byddai Festival yn darpar diweddariad ar Seiberddiogelwch i ARAC.</p> <p>Nododd ARAC gynnwys y papur a gofynnwyd iddo roi sicrwydd i Fwrdd Festival .</p>	<p><b>JD</b></p> <p><b>AR</b></p> <p><b>JD</b></p>
<p><b>4</b></p>	<p><b>Y Diweddaraf am Yswiriant</b></p> <p>Diweddarodd RP y Pwyllgor ar y sefyllfa yswiriant ar gyfer Festival ac ar gyfer pob un o'r comisiynau, a oedd yn seiliedig ar gyngor a ddarparwyd gan froceriaid yswiriant Festival, Marsh.</p> <p>Cafwyd sgwrs am risg ac amddiffyniadau seiberddiogelwch.</p> <p>RP i sicrhau bod gan DAs yr yswiriant priodol ar waith.</p> <p><b>Nododd ARAC gynnwys y papur.</b></p>	<p><b>RP</b></p>